| **Teitl y Swydd:**<br>Rheolwr Marchnata a Chyfathrebu | **Lleoliad:**<br>Hybrid<br>(Cartref / Swyddfa – lleoliad y brif swyddfa yw Llangefni) | **Band Cyflog:**<br>£38,843.23 - £48,175.00 (Rheolaethol) + pensiwn buddion diffiniedig. |
|---|---|---|
| **Atebol i:**<br>Cyfarwyddwr Corfforaethol | **Yn gyfrifol am:**<br>Swyddog Cyfathrebu a Chysylltiadau Cyhoeddus | **Hyd y Contract:**<br>12 mis gyda'r posibilrwydd o ymestyn. |
| **Oriau:** Llawn amser (37 awr yr wythnos), fodd bynnag, rhoddir ystyriaeth i geisiadau i weithio'n rhan-amser (ar sail pro rata). | | |

**Pwrpas y Rôl:**
Yn gyfrifol am ddatblygu, gweithredu a goruchwylio cynlluniau marchnata a chyfathrebu strategol i gefnogi brand, nodau ac amcanion Menter Môn yn fewnol ac ymhlith rhanddeiliaid allanol.

**Cyfrifoldebau**

**Cynllunio Strategol:**
- Datblygu a gweithredu strategaethau marchnata a chyfathrebu.
- Alinio gweithdrefnau marchnata gyda gweledigaeth / nodau busnes grwp Menter Môn.
- Gweithio gyda'r Rheolwr Gyfarwyddwr ac Uwch Reolwyr i sicrhau bod negeseuon yn gyson, yn berthnasol ac yn effeithiol.

**Rheoli Brand:**
- Goruchwylio defnydd a chysondeb brand Menter Môn ar draws holl sianeli cyfathrebu a phob phortffolio.
- Cynnal ac esblygu canllawiau brand Menter Môn.

**Creu a Rheoli Cynnwys:**
- Datblygu dealltwriaeth o'r holl weithgareddau prosiect, a chefnogi timau wrth ddatblygu cynnwys ar gyfer llwyfannau digidol, datganiadau i'r wasg, cylchlythyrau a llyfrynnau.
- Adnabod ac arwain ar straeon diddorol a pherthnasol.
- Rheoli calendrau cynnwys ar draws pob platfform (cyfryngau cymdeithasol / gwefan ac ati).

**Marchnata Digidol:**

- Gweithio gyda chontractwyr allanol i reoli cynnwys, dyluniad a pherfformiad ein gwefan.
- Dadansoddi data analytig er mwyn uchafu ein hymdrechion marchnata digidol.

**Cyfryngau a Chysylltiadau Cyhoeddus:**
- Meithrin a rheoli perthnasau o fewn y cyfryngau.
- Paratoi datganiadau i'r wasg a thrin ag ymholiadau'r cyfryngau.
- Cydlynu cyfweliadau, digwyddiadau i'r wasg, ac ymddangosiadau cyhoeddus.

**Archwilio ac arbrofi**:
- Mabwysiadu technegau arloesol i gyfathrebu negeseuon i wahanol gynulleidfaoedd. Disgwylir i'r deilydd swydd ddangos parodrwydd i roi cynnig ar ddulliau newydd.

**Rheoli Digwyddiadau:**
- Cefnogi a chydweithio â thimau wrth gynllunio a rheoli digwyddiadau hyrwyddo, lansiadau cynnyrch, sioeau masnach, a gweminarau.

**Cyfathrebu Mewnol:**
- Cefnogi ymgysylltu mewnol trwy ddiweddariadau digidol, cylchlythyrau a chyhoeddiadau i staff.
- Alinio negeseuon mewnol â diwylliant ac amcanion y cwmni**.**

**Arweinyddiaeth a Chydweithio:**
- Creu a rheoli perthnasoedd gyda'r holl staff – Cyfarwyddwyr, Rheolwyr, Swyddogion Prosiect a swyddogion cymorth.
- Cydweithio a rheoli contractwyr allanol e.e. dylunio, cynhyrchu ffilmiau, rheoli digwyddiadau a chefnogaeth cyfathrebu cyffredinol.
- Mynychu cyfarfod rheolwyr misol mewnol a chyfarfodydd strategol eraill lle bo hynny'n berthnasol.
- Rheoli cyllidebau bach fel y cytunwyd â thimau prosiect.

**Cynrychioli'r cwmni**: Ymagwedd ragweithiol wrth ddatblygu perthnasoedd gyda rhanddeiliaid allanol i hyrwyddo'r cwmni a datblygu ei enw da yn lleol ac yn genedlaethol.

**Arall**: Ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau eraill fel sy'n ofynnol ac yn rhesymol gan reolwyr llinell a/neu'r Uwch Dîm Rheoli.

<table>
<tr><th>Sgiliau / Profiad</th><th colspan="2">Cymwysterau</th></tr>
<tr><td>Hanfodol:<ul><li>Y gallu i gyfathrebu (ar lafar ac yn ysgrifenedig) i'r safon uchaf yn y Gymraeg a'r Saesneg</li><li>Y gallu i reoli prosiectau lluosog a i derfyniadau amser.</li><li>Yn gallu i gydweithio yn effeithiol ag unigolion ar bob lefel o'r sefydliad, tra'n herio syniadau yn hyderus pan fo angen.</li><li>Gwybodaeth a dealltwriaeth o dechnegau / meddalwedd marchnata a dadansoddi.</li><li>Gwybodaeth o wahanol sianeli cyfryngau cymdeithasol i gyfathrebu negeseuon penodol.</li><li>Profiad o ddatblygu a gweithredu cynlluniau cyfathrebu.</li><li>Profiad o ddefnyddio gwahanol ddulliau i greu cynnwys e.e. ffilmiau byrion, podlediadau, ffeithluniau (ni ddisgwylir i ymgeiswyr fod â sgiliau ar draws pob math o greu cynnwys)</li><li>Natur chwilfrydig ac awydd i ddysgu am holl weithgareddau Menter Môn, o egni llanw i gadwraeth llygod dŵr.</li><li>Y gallu i fesur ymateb a chynnal tôn llais cyson ar draws pob cyfathrebu.</li><li>Y gallu i arwain ar gyfathrebu ar draws y cwmni, a chyfarwyddo staff ar bob lefel i sicrhau gweithrediad y cynllun cyfathrebu.</li></ul>Dymunol:<ul><li>Ymwybyddiaeth o weithgareddau Menter Môn ar draws gwahanol sectorau.</li><li>Cyfarwydd â'r ardal a gyda'r gwahanol randdeiliaid.</li><li>Profiad arweinyddiaeth neu reoli tîm.</li></ul></td><td>Hanfodol:<ul><li>Addysgwyd hyd at lefel gradd</li><li>Gradd neu gymhwyster mewn Marchnata, Cyfathrebu, Cysylltiadau Cyhoeddus, neu faes cysylltiedig.</li></ul></td><td>Dymunol:<ul><li>Cymwyster Arweinyddiaeth neu Reoli Tîm</li></ul></td></tr>
</table>

<table>
<tr><td>• Perthynas sefydledig gyda gwahanol sefydliadau o fewn y wasg a'r cyfryngau.</td><td></td><td></td></tr>
<tr><td>Nodweddion</td><td colspan="2">Arall</td></tr>
<tr><td rowspan="4">Dyma’r nodweddion rydyn ni'n eu disgwyl o’r unigolyn yn y rôl hon.<br>• Trefnus<br>• Arloesol<br>• Ymrwymedig<br>• Chwilfrydig</td><td>Trwydded Yrru lawn yn y DU a mynediad at gar eich hun</td><td>Ie</td></tr>
<tr><td>Parodrwydd i weithio y tu allan i oriau gwaith arferol</td><td>Ie</td></tr>
<tr><td>Parodrwydd i deithio</td><td>Ie</td></tr>
<tr><td>Y gallu i gyfathrebu yn Gymraeg Saesneg</td><td>Ie</td></tr>
</table>